

# Y Ganolfan Integredig i Blant Catalog Adnoddau Synhwyraidd y gellir eu Benthyg



Mae'r holl adnoddau yn  
rhad ac am ddim i'w  
benthyg. Edrychwch  
drwy'r catalog i weld y  
pethau yr hoffech eu trio.



Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar 01685 727374, CPI Cwm  
Golau, Heol Dyffryn, Pentre-bach, Merthyr Tudful, CF48 4BJ

# Cynnwys:

## Pecynnau Synhwyraidd:

Pecyn UV	Tudalen 2
Pecyn Ffidlan	Tudalen 3
Pecyn Emosiynau	Tudalen 4
Gweithgaredd Grŵp/Pecyn Gêmau	Tudalen 5
Cwdyn Cerddoriaeth	Tudalen 6
Bocs Chwarae Blêr	Tudalen 7

## Jenga Anferth

Tudalen 8

## Bowlio 10

Tudalen 8

## Cerrig Camu'r Goedwig

Tudalen 8

## Pecynnau Pypedau:

Anifeiliaid y Fferm	Tudalen 9
Anifeiliaid y Coetir	Tudalen 9
Anifeiliaid y Jwngl	Tudalen 9
Tiwb Swigod gyda Physgod a Pheli Lliw	Tudalen 10
Tryledwyr Aromatherapi ag Olewau	Tudalen 10
Golau Disgo LED	Tudalen 10
Taflunydd Solar	Tudalen 11

## Llyfrau:

Llyfrau Stori Therapiwtig i Rieni	Tudalen 11
Y Llyfrau "101 Games" – set o 4	Tudalen 11
Bocs Rheolau Aur â Phypedau Bys	Tudalen 12

Seddi a Chlustogau Synhwyrdd	Tudalennau 13-15
Eitemau Symud a Balans	Tudalennau 15-17
Gêmau Pentyrri, Edafu a Didoli	Tudalennau 18-19
Golau Lleuad LED	Tudalen 20
Lamp Tornado Ddwbl	Tudalen 20
Sffêr Patrymog sy'n Newid Lliw	Tudalen 20
Lamp Slefrod Môr ar gyfer Bwrdd Gwaith	Tudalen 21
Taflunydd Enfys	Tudalen 21
Lamp Drych â Thwnnel Anfeidrol	Tudalen 21
Tiwbiau Synhwyrdd Amryliw	Tudalen 22
Cerrig Mân sy'n Goleuo ar Stand	Tudalen 22
Ffau Synhwyrdd	Tudalen 22

### Cynnwys y Pecyn UV:

Mae chwaraeon sy'n defnyddio UV yn cynnig llawer o fanteision: gallant helpu gyda thracio gweledol a chanfyddiad wrth i'r gwrthrychau ddisgleirio'n llachar a dod yn drawiadol iawn; gallant helpu i ddatblygu sgiliau cydsymud y llaw a'r llygad ynghyd â sgiliau echddygol; a gallant hefyd helpu i wella'r gynneddf i ganolbwyntio a ffocysu. At hynny, gallant helpu i lonyddu unigolyn sy'n profi gorrwyth synhwyraidd a thynnu sylw oddi ar ymddygiadau negyddol. Bydd ein pecyn UV yn gweithio orau mewn ystafell neu ffau dywyll. Os oes gennych chi lenni/bleindiau blacowt, bydd eitemau'r pecyn yn gweithio'n berffaith hyd yn oed yn ystod y dydd. Fel arall, bydd gosod blanced drwchus neu dwfe dros gadeiriau neu hyd yn oed y rheilen llenni, yn creu ardal/ystafell dywyll.

Golau UV

Tortsh UV

Llinynnau Meddal UV

Hudlathau UV

Pêl UV Cyffyrddadwy, Anferth

Amrywiaeth o Beli Cyffyrddadwy UV sy'n Goleuo

Tiwbiau Plastig sy'n Plygu ac yn Goleuo (LineLite)

Celf Pin yr Enfys

Tegan Creu Glaw

Hudlathau Gliter

Nod ein pecynnau synhwyraidd yw cefnogi datblygiad cynnar y plant, yn enwedig yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol hynny sy'n ymwneud â'u prosesau dysgu a'u sgiliau synhwyraidd.



## Cynnwys y Pecyn Ffidlan:

Mae teganau ffidlan yn ffordd wych o gadw dwylo'n brysur a chynyddu'r gallu i ganolbwytio. Mae'n help enfawr i blant â phroblemau synhwyraidd. Gall teganau ffidlan helpu i wella cydsymudiad, sgiliau echddygol manwl a phrosesu gweledol. Gall natur ailadroddus a chyffyrddol y teganau hyn helpu plant i leddfu straen a lleihau ymddygiadau hunanysgogol.

Troellwr Ffidlan

Ciwb Ffidlan

Amrywiaeth o Beli Cyffyrddadwy UV sy'n Goleuo

Amserwyr Hylif

Amrywiaeth o Amserwyr Tywod (Peidiwch â rhoi'r rhai gwydr yn uniongyrchol i blant. Yn ddelfrydol, dylid eu defnyddio i amseru gweithgareddau sy'n cynyddu ymgysylltiad a ffocws)

Gêm Ffidlan â Pheli

Hudlathau Gliter

Peli Sgwish wedi'u Rhwydo

Gwneuthurwr Glaw

Golau Pod MOD

Siapau Mawr ar gyfer Edafu

Drych Sbwng

Nod ein pecynnau synhwyraidd yw cefnogi datblygiad cynnar y plant, yn enwedig yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol hynny sy'n ymwneud â'u prosesau dysgu a'u sgiliau synhwyraidd.

## Pecyn Emosiynau:

Gall emosiynau fod yn anodd eu deall i blant a phobl ifanc neu'r rhai sydd ag anghenion ychwanegol. Bydd y pecyn hwn yn helpu i adeiladu sgiliau cymdeithasol-emosiynol pwysig trwy ddangos i blant ac oedolion ifanc y ffordd o adnabod a chyfleu eu hemosiynau. Gallech chi ddefnyddio'r drychau i adnabod emosiynau ar eich wyneb eich hun, defnyddio'r pypedau i adrodd straeon a defnyddio'r teils i chwarae gēmau paru. Darllenwch y llyfrau i/gyda phlant ac oedolion ifanc i'w helpu i ddeall yr hyn all achosi gwahanol emosiynau a'r dulliau o'u rheoli. Gall y llyfrau hefyd eich helpu i ddeall ei bod hi'n iawn profi rhai teimladau a'i bod hi'n bwysig cyfathrebu'r teimladau hynny.

Teils Llawr yr Emosiynau  
Pypedau Llaw'r Emosiynau  
Amrywiaeth o Drychau  
Golau Pod MOD  
Taflunydd Golau Solar  
Y llyfrau:

“Have You Filled Your Bucket Today?”

“I Am Stronger than Anger”

“Be Mindful of Monsters”

“How to Accept No”

“Ruby’s Worry”

“All About Feelings”

“Finding Out About Feelings”

“Conker the Chameleon”

“Listening to My Feelings”

“The Colour Monster”

“CBT Toolbox for Children and Adolescents”

(Mae'n gweithio'n dda gyda Llyfrau Stori sy'n ymwneud â Rhianta Therapiwtig a'r Rheolau Aur)

Nod ein pecynnau synhwyraidd yw cefnogi datblygiad cynnar y plant, yn enwedig yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol hynny sy'n ymwneud â'u prosesau dysgu a'u sgiliau synhwyraidd.



## Cynnwys Gweithgaredd Grŵp/Pecyn Gêmau:

Gall ymgymryd â gweithgareddau fel rhan o grŵp helpu i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, cynhwysiant, sgiliau cymryd tro a chyfaddawdu. Hefyd, gall gweithio fel rhan o dîm helpu i ddatblygu galluoedd ar gyfer datrys problemau a'r sgiliau sydd eu hangen i wneud a chynnal cyfeillgarwch. At hynny, mae gweithgareddau grŵp yn eich sbarduno i gadw'n actif, symud yn rheolaidd a'ch helpu i gynnal ffordd iach o fyw.

Parasiwtiau Mawr a Bach

Peli Meddal ar gyfer Parasiwt a Gêmau Eraill

Gêm Dargedu

Gêm Paru Gyffyrddadwy

Amserwyr Tywod Amrywiol

Peli Jyglo

Cylchynau Rwber

Amrywiaeth o beli gwahanol siapiau i'w defnyddio mewn gêmiau a gweithgareddau (maen nhw'n gweithio'n dda â Jenga Anferth, Bowlio 10, a'r llyfrau "101 Games" - set o 4)

Nod ein pecynnau synhwyraidd yw cefnogi datblygiad cynnar y plant, yn enwedig yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol hynny sy'n ymwneud â'u prosesau dysgu a'u sgiliau synhwyraidd.



## Cynnwys y Cwdyn Cerddoriaeth:

Mae cerddoriaeth o fudd mawr i addysg gynnar a'r rhai sy'n meddu ar anghenion synhwyraidd. Mae'n gymorth i ddatblygu cydsymudiad, adnabyddiaeth o batrymau, iaith, a rhesymu. Mae cerddoriaeth o gymorth i gynyddu gweithrediad a sgiliau'r cof yn ogystal â datblygiad emosiynol. I'r rhai ag anghenion synhwyraidd, gall cerddoriaeth helpu iddynt hunan-reoleiddio a lleihau ymddygiadau hunanysgogol. Gall chwarae offerynnau cerdd fel rhan o grŵp helpu plant ac oedolion ag anghenion synhwyraidd neu anghenion dysgu ychwanegol i ymgysylltu ag eraill a theimlo fel eu bod yn cael eu cynnwys.

Set o 5 Triongl Tambwrîn a Chroen Drwm

Tambwrîn heb Groen Drwm

Maracas

Castanetau

Ffyn Castanetau a Ddelir â Llaw

Gwiro a Sgrafell

Blociau 2 Dôn

Ysgytwr Wy

Seiloffon

Cynhwyswyd 12 curwr ar gyfer yr offerynnau

Nod ein pecynnau synhwyraidd yw cefnogi datblygiad cynnar y plant, yn enwedig yr agweddau cymdeithasol ac emosiynol hynny sy'n ymwneud â'u prosesau dysgu a'u sgiliau synhwyraidd.





## Bocs Chwarae Blêr

Mae chwarae blêr yn fuddiol iawn i ddatblygiad gwybyddol a chorfforol y plant a'u hanghenion synhwyaidd. Mae plant yn dysgu trwy wneud pethau, ac mae gweithgareddau chwarae blêr yn caniatáu iddynt brofi ystod eang o bethau newydd a chyffrous mewn ffordd gyffyrddol iawn. Boed hynny'n crensiàn creision yd, yn gwasgu llysnafedd neu'n creu glud glwpi, bydd plant yn elwa'n fawr o hyd yn oed ychydig bach o amser yn chwarae'n flêr.

Gall chwarae blêr helpu plant â'u Datblygiad Personol, Cymdeithasol ac Emosiynol; Cyfathrebu, Iaith a Llythrennedd; Datblygiad Creadigol, Corfforol a Mathemategol, yn ogystal â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd.

Mae ein Bocs Chwarae Blêr yn cynnwys amrywiaeth o offer i'w defnyddio mewn gweithgareddau chwarae blêr, gan gynnwys tarpolin i atal y llanast rhag ymledu. Mae yna gannoedd o weithgareddau y gellir eu gwneud gan ddefnyddio'r cynwysyddion, y sgwêp, y pliciwr a'r hambyrddau. Gall y dewis fod ychydig yn llethol, felly rydym wedi cynhyrchu ffolder o weithgareddau hawdd y gellir eu rhoi ar fenthyg, ochr yn ochr â'r Bocs hwn ynghyd â rhestr o gynhwysion hanfodol ar gyfer chwarae blêr.



## Jenga Anferth

Gwych ar gyfer sgiliau echddygol manwl, cymryd tro a chwarae cydweithredol. Gellir defnyddio Jenga Anferth y tu mewn neu'r tu allan ar gyfer ymarfer corff ysgafn. Mae'n annog plant ac oedolion a all fod yn fyrbwyll i feddwl am eu gweithredoedd a'u dewisiadau. Mae Jenga Anferth yn hybu blaengynllunio a meddwl strategol. Mae cymryd amser i chwarae gêmâu gyda phlant yn help mawr i adeiladu'u hyder a'u hunanbarch. Gellir defnyddio Jenga Anferth ar gyfer teulu neu grŵp. Yn ddelfrydol ar gyfer 3 oed a hŷn.

## Bowlio 10

Gwych ar gyfer sgiliau echddygol manwl a chymryd tro. Gellir chwarae bowlio 10 y tu mewn neu'r tu allan. Mae hon yn gêm wych i deuluoedd neu grwpiau. Mae'n helpu gyda mathemateg syml (wrth gyfrif ac adio'r pinnau), cydsymud y llaw a'r llygad, ac ymgysylltu â'ch system priodderbynnol. Mae'r derbynyddion priodderbynnol yn dweud wrth eich corff faint o bwysau a grym i'w ddefnyddio ac yn helpu gyda balans wrth ddal pêl fowlio mewn un llaw.

## Cerrig Camu'r Goedwig

Mae'r boncyffion balans a'r cerrig camu yn helpu i wella balans a chydsymudiad. Maen nhw'n wych ar gyfer gwella sgiliau echddygol bras, cymryd tro, sgiliau gwrando a derbyn cyfarwyddyd. Gellir eu defnyddio mewn chwarae dychmygol ynghyd ag eitemau eraill er mwyn helpu i adrodd straeon, er enghraifft Yr Hujan Fach Goch, neu gellir eu defnyddio i greu straeon a theithiau newydd. Mae ganddyn nhw rwyber gwrthlithro â phatrwm pren sy'n ddelfrydol ar gyfer traed bach ac nid mor fach. Hefyd, gellir defnyddio Cerrig Camu'r Goedwig yn y Fframwaith ar gyfer Symudiadau Datblygiadol Chwarae (chwarae sy'n cael ei arwain gan y plentyn, ac sy'n llofo'n rhydd ac yn ddigymell – Chwarae a'i Symudiadau Datblygiadol | JABADAO).



## Cynnwys y Pecyn Pypedau:

Mae pypedau'n wych ar gyfer adrodd straeon, chwarae creadigol a gellir eu defnyddio ar y cyd ag ELSA



### Anifeiliaid y

**Fferm:** Buwch, Ceffyl,  
Îâr, Mochyn, Dafad,  
Hwyaden

### Anifeiliaid y Coetir:

Mochyn Daear, Llwynog,  
Draenog, Tylluan, Gwiwer,  
Blaidd



### Anifeiliaid y Jwngl:

Llew, Eliffant, Jiráff,  
Llewpard, Teigr, Mwnci

## **Golau Disgo LED**

Mae'r golau disgo LED yn cylchdroi ac yn chwarae cerddoriaeth. Dilynwch y cyfarwyddiadau amgaeedig er mwyn gwneud defnydd llawn o'r disgo/cerddoriaeth. Mae'n dod â theclyn rheoli bychan y dylid ei gadw'n ddigon pell o blant.

Mae'r golau LED yn creu ymateb synhwyraidd gweledol a chlywedol sy'n addas ar gyfer pob oed.



## **Tryledwr Aromatherapi**

Mae'r Tryledwr LED yn newid lliw ac yn cynnwys 8 olew hanfodol: Thus, Oren Melys, Lemwnwellt, Coeden De, Pupurfntys, Rhosmari, Ewcalyptws a Lafant. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r golau a'r Siart ar gyfer Gwanedu'r Olewau Hanfodol. Cadwch yn ddigon pell o blant. Mae'r tryledwr yn gymorth i greu awyrgylch lonydd ac ymlaciedig ac mae'r golau tyner yn sbarduno ymateb synhwyraidd.



## **Tiwb Swigod:**

Mae gan ein tiwb swigod y fantais o gynnwys pysgod a/neu bawdlysau lliw ychwanegol i gynyddu'r mewnbwn synhwyraidd. Maent yn cynyddu'r ysgogiad clywedol gyda thapio ysgafn y tu mewn i'r tiwb ac maent hefyd yn cynyddu'r ysgogiad gweledol.



## Taflunydd Solar



Sioe olau lleddfol a gostegol sy'n cael ei thaflunio ar y nenfwd gartref neu yn yr ystafell ddosbarth. Mae gan y taflunydd hwn sawl gosodiad gwahanol fel y gallwch greu eich profiadau synhwyraidd delfrydol.

## Llyfrau Therapiwtig:



“Callum Kindly and the Very Weird Child”

“William Wobbly and the Very Bad Day”

“Rosie Rudey and the Enormous Chocolate Mountain”

“William Wobbly and the Mysterious Holey Jumper”

“Charley Chatty and the Disappearing Pennies”

“Rosie Rudey and the Very Annoying Parent”

“Charley Chatty and the Wiggly Worry Worm”

“Sophie Spikey Has a Very Big Problem”

“Katie Careful and the Very Sad Smile”

Mae'r llyfrau stori therapiwtig hyn wedi'u hysgrifennu i helpu rhieni/gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill i wella plant sydd wedi'u trawmateiddio. Mae gan bob stori ddarluniau hyfryd a chynnwys deniadol ac ystyrlon. Yn y cefn, mae nodiadau yn egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r stori, gan ddarparu strategaethau a thechnegau cefnogol y gellid rhoi cynnig arnynt.

Gall y straeon hyn fod yn ddefnyddiol iawn i ddeall materion emosiynol ac ymddygiadol.



### Casgliad y “101 Games”:

- “101 Games for Social Skills”
- “101 Activities to help children get on together”
- “101 Games for Self-esteem”
- “101 Games for better behaviour”

Mae’r gêmau a’r gweithgareddau hyn yn ddefnyddiol iawn i hybu ymddygiad, sgiliau cymdeithasol a hunanhyder cadarnhaol.

### Rheolau Aur a Phypedau Bys:

- “You look after things”
- “You are honest”
- “You are gentle”
- “You try hard”
- “You listen well”
- “You are kind and helpful”



Mae’r NDNA yn argymhell darllen llyfrau er mwyn cynorthwyo plant ifanc i ddysgu ymddygiadau a sgiliau cymdeithasol cadarnhaol.

## Seddi a Chlustogau Synhwyrdd

Gelwir yr opsiynau eistedd hyn yn Seddi Actif, sy'n golygu y bydd rhai o'ch cyhyrau'n cymryd rhan weithredol wrth eistedd. Yn ei dro, mae hyn yn cynyddu cryfder craidd, yn gwella ystum a'r gallu i falansio. Mae'r math hwn o seddi yn helpu gyda'r synnwyr priodderbynnol sef ymwybyddiaeth y corff o'i safle ei hun a faint o bwysau a roir ar wrthrychau. Mae priodderbyniaeth yn ein helpu gyda sgiliau echddygol, cydsymudiadau a lefelau craffter, a all helpu i gynyddu sylw, ffocws a'r gallu i ddysgu. Mae llawer o blant sy'n meddu ar ymwybyddiaeth wael o'u corff yn chwilio am synhwyrdd ac yn ei chael hi'n anodd iawn eistedd a chanolbwyntio. Yn aml, bydd angen cynyddol arnynt i ffidlan. Mae opsiynau Seddi Actif yn helpu i leihau'r angen hwn gan y bydd eu derbynyddion priodderbynnol yn cael eu defnyddio ynghyd â'u cyhyrau craidd.

## Clustogau Lletem

Mae gennym Glustogau Lletem bach a mawr ar gael ar gyfer gwahanol oedrannau (3-12 i'r rhai bach a 12+ i'r rhai mawr). Maen nhw'n ddelfrydol ar gyfer y rhai sydd ag ymwybyddiaeth gorfforol (synnwyr priodderbynnol) neu ffyrdder cyhyrau gwael. Mae'n llyfn ar un ochr ac yn gyffyrddadwy ar yr ochr arall. Gellir defnyddio'r clustogau chwyddadwy hyn ar gadair neu ar lawr - gartref neu yn yr ysgol. Gellir eu defnyddio hyd yn oed y tu allan gan eu bod yn ysgafn ac yn cynnwys handlen ddefnyddiol i'w cario.



## Clustog Woblo



Mae'r glustog hon yn debyg i eistedd ar bêl campfa neu bêl therapi sydd ychydig yn llai ac yn fwy cludadwy, ac mae'n ddelfrydol i'w defnyddio gartref neu yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu plant sy'n chwilio am synhwyrdd ac yn rhoi'r gallu iddynt ganolbwyntio trwy ddefnyddio'u cyhyrau craidd a lleihau'r angen i ffidlan. Mae'n debyg i'r ffordd y mae clustogau lletem yn gweithredu, ond gydag ychydig mwy o wobliad. Gellir sefyll arnynt i ymarfer balans ac i ddefnyddio'r cyhyrau ymhellach ac adeiladu sefydlogrwydd craidd.

Pwysau uchaf 200 kg/32 stôn

## Clustog Woblo Sefydlog

Mae hon yn debyg i'r Glustog Woblo ond wedi'i gyllunio ar gyfer eistedd yn unig. Mae ganddo fwy o wobliad a gellir ei chwyddo'n fwy na'r opsiynau blaenorol eraill. Mae'r glustog hon yn achosi mwy o ymgysylltiad â'r cyhyrau craidd a'r system bropriodderbynnol sy'n cael llawer mwy o effaith hunanreoleiddio. Felly, gall helpu i lonyddu plant yn ogystal â chaniatáu iddynt ymgysylltu a chanolbwyntio'n hirach. Byddai'r glustog hon yn wych i'w defnyddio ar gyfer plant sydd ag ADHD neu sy'n ddymunwyr synhwyraidd sylweddol ac yn ei chael hi'n anodd iawn eistedd yn llongydd. Gellir ei defnyddio ar gadair neu ar lawr.



## Clustog Ddirgrynol

Mae'r glustog hon yn meddu ar ddirgryniad ysgafn a weithredir pan gaiff ei wasgu neu pan eisteddir arni. Mae gan ddirgryniad lawer o fanteision gan gynnwys cynyddu gallu rhywun i hunanreoleiddio, ac felly mae'n cael effaith lonyddol ac ymlaciol. Mae hefyd yn cael effaith bellgyrhaeddol drwy'r corff ac yn defnyddio mwy o gyhyrau. Felly, mae'n fuddiol iawn i blant sy'n ddymunwyr synhwyraidd ac yn ei chael hi'n anodd eistedd am gyfnodau hir a chanolbwyntio ar weithgareddau. Gellir ei defnyddio ar gadair neu ar lawr.



## Cadair Pêl Gampfa

Mae hon yn bêl gampfa sy'n cynnwys coesau bach i'w chadw rhag rholio ymaith. Mae'n cynnig ffordd wych arall i eistedd yn lle cadair. Gellir ei defnyddio gartref neu yn yr ysgol er mwyn helpu plant i ymgysylltu a chanolbwyntio'n hirach.





## Sedd Falans



Dyma ddewis arall yn lle cadair. Mae gan y sedd hon ychydig o wobliad a bowns gan gynnig symudiad wrth ichi eistedd arni. Byddai'r opsiwn eistedd hwn o fudd i blant ag ASD neu ADHD ac yn eu helpu i ymgysylltu a chanolbwyntio. Gellir ei defnyddio gartref neu yn yr ysgol.

## Peli Cnau Daear - meintiau amrywiol



Dyma seddi mwy sefydlog na Chadeiriau Pêl Gampfa. Mae'r Peli Cnau Daear hyn yn dal i gynnig symudiad wrth eistedd ac yn ymgysylltu â'r cyhyrau craidd. Maent felly'n ymgysylltu â'r system bropriodderbynnol ac yn arwain at gynydd o ran y gallu i ganolbwyntio a dysgu. Yn y tymor hir, maent hefyd yn helpu i wella balans a chydymudiad wrth iddynt ymarfer y cyhyrau craidd yn rheolaidd. Mae'r Peli Cnau Daear hefyd yn ddigon mawr fel y gall mwy nag un person eistedd arnynt, er enghraifft rhiant neu weithiwr proffesiynol sy'n cefnogi plentyn (e.e. 1:1, Seicolegydd Addysg, Therapydd

Galwedigaethol ac ati).

Er mwyn cael pêl o'r maint cywir, bydd angen i ni wybod hyd braich fewnol y defnyddwyr (o'r gesail i flaen y bys)  
Uchafswm pwysau 110 kg/250 pwys

## Eitemau ar gyfer Symudiad a Balans

Gall eitemau balans fod yn wych ar gyfer datblygu'r system festibwlar (gallu'r corff i gydlynu symudiad â balans ac ymwybyddiaeth ofodol) yn ogystal â'r system bropriodderbynnol. Gellir defnyddio'r eitemau hyn hefyd yn y Fframwaith ar gyfer Symudiadau Datblygiadol Chwarae (chwarae a arweinir gan blant, chwarae llif rhydd, chwarae digymell, chwarae sy'n cynnwys symudiadau datblygiadol | JABADAO ), er mwyn helpu plant o bob oed a gallu i ddatblygu eu gallu i brosesu'n synhwyraidd (teimlad ac ymwybyddiaeth o'r corff) ac i ddatblygu'u sgiliau echddygol (y ffordd y mae'r corff yn symud).

### Bwrdd Balans

Mae'r eitem hon yn rhoi ysgogiad i'r rhai a allai fod â system festibwlar dan-sensitif ac sy'n ceisio cael mewnbwn synhwyraidd drwy siglo neu swingio. Efallai y bydd symud



y bwrdd balans yn diwallu'r angen hwnnw. Gall hefyd helpu i ddatblygu balans, cydsymudiad a sgiliau echddygol bras, ac mae'n ymarfer y cyhyrau craidd a chyhyrau'r coesau. Gellir sefyll neu eistedd arno ac mae'n gallu dal llwyth o hyd at 60 kg.

### Bwrdd Sgwteri a Phecyn Gweithgaredd

Mae'r sgwteri hyn a'r Dec Difyr sy'n cyd-fynd â nhw yn cynnig ystod eang o syniadau i fynd i'r afael ag amrywiaeth o nodau therapiwtig megis gwella cryfder rhan uchaf y corff, sefydlogi'r craidd, cynllunio echddygol ac ymarferoldeb, ymatebion festibwlar a phropriodderbynnol, ac ati. Mae pob cerdyn yn rhoi darlun clir, lliwgar a deniadol o'r gweithgaredd. Mae'r cefn yn rhoi arweiniad i'r therapydd ar ffyrdd o greu, graddio neu amrywio gweithgareddau ar gyfer y defnyddiwr gydag esboniadau o'r buddion therapiwtig ar gyfer pob gweithgaredd. Mae gan y sgwteri system cyd-gloi tafod a rhych fel y gellir eu cysylltu â'i gilydd, a dolenni gafael i gadw bysedd yn ddiogel ac i ffwrdd o'r olwynion.



## Draenogod Balans



Mae'r hemisfferau bach hyn yn annog cydsymudiad, symudiad ac ymwybyddiaeth o'r corff. Gallant helpu i gryfhau cyhyrau'r goes a'r cyhyrau craidd a datblygu ymwybyddiaeth ofodol. Maen nhw'n wych ar gyfer gêmiau a chylchoedd rhedeg synhwyraidd. Mae ganddyn nhw arwyneb anwastad ar gyfer mewnbwn synhwyraidd yn ogystal â gfael a falf i addasu'r pwysedd aer; po leaf y pwysedd, mwyaf woblog fydd y glustog a mwyaf oll y caiff y cyhyrau craidd a'r coesau eu defnyddio.

## Sffêr Balans



Fe'i cynlluniwyd i ddatblygu sgiliau echddygol bras, cydsymudiad a ffyrfder cyhyrau; mae gan y sffêr balans hwn arwyneb gwrthlithro blewog er mwyn gwella'r modd y gafaelir ynddo i gynnal ymarferion balans amrywiol. Gellid ei ddefnyddio fel rhan o therapi niwro-ffisiolegol. Argymhellir gwisgo sanau a/neu esgidiau wrth ddefnyddio'r eitem hon.

## Dec Difyr "Move Your Body"



Weithiau, gall fod yn anodd meddwl am weithgareddau hwyliog a phwrpasol sy'n ymwneud â symud ac a fyddai'n helpu gyda balans, cydsymudiad, sgiliau echddygol a chryfder y cyhyrau. Mae'r cardiau Dec Difyr hyn yn gymorth gweledol gwych i helpu plant wrth iddynt symud a chwarae. Gwnewch gêmiau fel: faint o symudiadau allwch chi eu gwneud o fewn munud; pa mor hir allwch chi wneud yr un symudiad, a allwch chi ddod o hyd i symudiadau ar lawr, ar lefel ganolig ac yn

unionsyth (e.e. llithro fel neidr, cropan yn araf fel crwban, a sefyll ac ymestyn fel coeden). Mae syniadau eraill wedi'u cynnwys yn y pecyn ac mae hwn yn weithgaredd di-eiriau da. Gall y plant ddarllen y cardiau eu hunain neu gallant adlewyrchu symudiadau sy'n cael eu hactio o'u blaenau.

## Clustogau Pwysau a Balans



Mae hyn yn cynnwys 4 pâr o glustogau sy'n pwysu 50 g, 100 g, 150 g a 200 g. Parwch y clustogau yn ôl lliw neu bwysau. Mae'n ddefnyddiol ar gyfer balans, gweithgareddau cymharol, adnabod lliwiau, annog sgwrs (e.e. ansoddeiriau), osgo a gêmiau di-ri. Dewis gwych arall yn lle sachau eistedd plaen.

## Gêmau Pentyrru, Edafu a Didoli

Mae gennym amrywiaeth o gêmau pentyrru, didoli ac edafu ar gael i'w benthyca. Mae'r rhain yn adnoddau gwych ar gyfer chwarae datblygiadol. Bydd y gêmau a'r gweithgareddau hyn o gymorth i ddatblygu sgiliau echddygol manwl, sgiliau datrys problemau, sgiliau rhifedd (adnabod patrwm), creadigrwydd a dychymyg, cydsymudiad y llaw a'r llygad, achos ac effaith (h.y. beth fydd yn digwydd os gwnaf fi hyn) ac adnabod siâp a lliw.

## Bocsys Snapio a Chlicio

Mae'r bocsys hyn yn llawn siapiau a lliwiau. Cliciwch nhw gyda'i gilydd i greu amrywiaeth o siapiau, patrymau a lluniau di-ben-draw. Maen nhw'n berffaith wrth ddatblygu sgiliau echddygol manwl ar gyfer dwylo sydd ychydig yn fwy, ac ar gyfer chwarae creadigol.



## Didoli Eirth

Mae'r bocs hardd hwn yn cynnwys eirth i'w didoli i botiau o liwiau cyfatebol. Mae hefyd yn cynnwys nifer o gêmau a gweithgareddau. Mae'n wych ar gyfer cydsymud y llaw a'r llygad, adnabod rhifau, patrymau a lliwiau, ac ar gyfer datblygu sgiliau echddygol manwl.



## Ciwbiau MathLink



Mae'r rhain yn flociau adeiladu llachar, beiddgar a gwydn. Rhowch rwydd hynt i'ch dychymyg gan adeiladu unrhyw beth y gallwch chi feddwl amdano, neu ddefnyddio'r ciwbiau wrth ymdrin â rhifedd sylfaenol. Trwy gysylltu darnau ynghyd, gallwch wella chwarae annibynnol, cydsymudiad y llaw a'r llygad, sgiliau gofodol, a dehurwydd. Mae'n wych ar gyfer datblygiad synhwyraidd, therapi galwedigaethol a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol neu ASD.

## Disgiau Adeiladu sy'n Cyd-gloi




Gall y blociau adeiladu unigryw hyn helpu plant â'u datblygiad echddygol manwl, eu datblygiad gwybyddol o liwiau, eu gallu i ymgymryd â gwaith tîm, eu gallu gwybyddol, eu gallu ymarferol, eu dychymyg a'u creadigrwydd.

## Gleiniau Edau Jymbo



Mae'r gleiniau hyn yn gwella adnabyddiaeth o liwiau, cydsymudiad y llaw a'r llygad, sgiliau cyfrif mathemateg, sgiliau crefft, a lefel wybyddol. Dysgwch am bob siâp a lliw. Hyfforddwch eich plentyn i feistroli sgiliau gweithgareddau echddygol manwl. At hynny, mae'n cynnig gweithgareddau dysgu gwyd ar gyfer therapi galwedigaethol.

## Golau Lleuad LED



### **Golau hudolus sy'n llonyddu ac yn ymlacio'r synhwyrâu.**

Gall golau ysgogi'r synhwyrâu a llonyddu'r corff – felly, mae'n hawdd gwerthfawrogi'i effaith ar ystafell synhwyradd, a'i gymorth i'r rhai ag awtistiaeth neu broblemau prosesu synhwyradd.

## Lamp Tornado Ddeuol



### **Lamp sy'n newid lliw yn awtomatig.**

Mae gan y lamp tornado hon effaith lleddfol a gall helpu plant ac oedolion â phroblemau synhwyradd.

Dyma degan synhwyradd perffaith ar gyfer plant ag anghenion arbennig, awtistiaeth ac ADHD. Mae'r tegan synhwyradd hwn yn gallu symud a goleuo yn ogystal â helpu i drin pryder, straen a diflastod.

## Sffêr Patrymog sy'n Newid Lliw



Mae hon yn belen drawiadol o liw sy'n newid yn barhaus ac yn cynnig sioe olau ryngweithiol a gwefreiddiol ar flaenau'ch bysedd. **Mae hyn yn annog ysgogiad gweledol a sgiliau tracio.** Mae'n ddelfrydol ar gyfer unrhyw ystafell, yn enwedig ystafelloedd synhwyradd a ffeiau.

## Lamp Slefrod Môr ar gyfer Bwrdd Gwaith



Mae'n llonyddu ac yn ymlacio  
Mae'n ysgogi'r synhwyrâu  
Mae'n wych ar gyfer plant ag awtistiaeth, anghenion  
arbennig, neu ADHD

## Taflunydd Enfys



Mae'r Taflunydd Enfys yn wych ar gyfer  
annog cyfathrebu, datblygu sgiliau  
allweddol, a darparu ysgogiad gweledol ac  
ymlaciol.

## Lamp Drych â Thwnnel Anfeidrol



Mae'n cyfrannu at symbyliad y system weledol.  
Mae'n meithrin creadigrwydd y plant.  
Mae'n rhoi'r argraff o ddyfnder, fel pe bai'r  
person yn edrych allan i'r gofod.  
Mae'n gwneud i ystafell fach edrych yn fwy.

## Tiwbiau Synhwyrdd ColorMix



Mae'r set hon o 3 Thiwb Synhwyrdd ColorMix yn helpu plant i ganolbwyntio eu sylw, ymarfer ymgysylltiad tawel a llonydd, a rheoli'u hemosiynau. Mae pob tiwb yn cynnig profiad ymlaciol wrth i chi ysgwyd nhw i gymysgu'r lliwiau ac yna eu gwyllo wrth iddynt wahanu'n araf a dychwelyd i'w trefn wreiddiol.

## Cerrig Mân sy'n Goleuo ar Stand



Bydd plant sy'n arddangos ymddygiadau sgematig penodol fel cylchdroi ac amgáu yn mwynhau'r cerrig mân hyn. Mae hwn yn adnodd TGCh y gall plant iau ei fwynhau. Byddant wrth eu bodd yn pentyrru, yn rholio ac yn cyffwrdd â'r cerrig mân a hardd hyn. Mae'n adnodd cyffyrddol gwych ar gyfer ystafelloedd synhwyrdd neu fannau ymdawelu.

## Ffau Synhwyrdd



Mae'n darparu cuddfan glyd ac encil llonydd a diogel heb unrhyw beth i dynnu'ch sylw. Neu fe all gynnig man tywyll ar gyfer ysgogiad ac archwiliad gweledol ar gyfer eich goleuadau a'ch cynhyrchion tywynnu eich hun.



# Ystafell Synhwyrdd a Llyfrgell Fenthyca Synhwyrdd

Mae'r Ganolfan Integredig i Blant ym Mhentre bach yn gartref i Ystafell Synhwyrdd a Llyfrgell Fenthyca Synhwyrdd o'r radd flaenaf. Mae'n llawn offer gwych a chyffrous a gweithgareddau chwarae sy'n addas ar gyfer pob oedran a'r rhai ag anghenion datblygol ac ychwanegol.

Mae'r ystafell yn cynnal Grŵp Bwydo ar y Fron a Thyllino Babanod bob wythnos yn ogystal â bwciadau preifat ar gyfer aelodau'r cyhoedd. Rydym yn darparu ar gyfer grwpiau o famau newydd sy'n dymuno dod at ei gilydd i greu amgylchedd diogel ac ysgogol fel y gall rhai bach ddatblygu eu sgiliau echddygol trwy chwarae. Rydym hefyd yn darparu profiad amlsynhwyrdd i'r rhai ag anghenion datblygol ac ychwanegol (plant ac oedolion fel ei gilydd). Mae ein **Hystafell Synhwyrdd a Llyfrgell Fenthyca Synhwyrdd** yn gynhwysol i bob defnyddiwr ac mae gennym staff cyfeillgar ar y safle i helpu ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

**Mae'r cyfleuster yn rhad ac am ddim ac ar agor i'r cyhoedd, lleoliadau gofal plant a grwpiau.**



Ffoniwch **01685 727374** am ragor o wybodaeth neu i archebu lle.

Lleoliad: Y Ganolfan Integredig i Blant, Heol Dyffryn, Pentre bach,

Merthyr Tudful, CF48 4BJ